

e-ASPECTS®

Llawlyfr Defnyddiwr

Fersiwn 12.0

e-ASPECTS-MAN-12.0 - 2025-08-21

Mae e-ASPECTS yn rhan o Brainomix 360

U.S. Patent No. 10902596

EU Patent No. 3701495

Adolygiadau hanesyddol (<https://www.brainomix.com/docs/>)

- 1 Cyflwyniad
 - 1.1 Trosolwg
 - 1.2 ASPECTS
- 2 Defnydd arfaethedig
 - 2.1 Dangosyddion
 - 2.2 Gwrtharwyddion
 - 2.3 Rhybuddion
 - 2.4 Rhagofalon
 - 2.5 Manteision Clinigol
 - 2.6 Amgylchedd Defnydd
- 3 Gosod a Hyfforddiant
 - 3.1 Gosod
 - 3.2 Hyfforddiant
- 4 Manylebau System
 - 4.1 Gweinydd
 - 4.2 Cleientiaid
 - 4.3 Ieithoedd
 - 4.4 Perfformiad ac Oes
- 5 Cyfaddasrwydd Sganiwr a Delwedd
- 6 Seiberddiogelwch
- 7 Rheoli Mynediad a Hysbysiadau
 - 7.1 Mewngofnodi
 - 7.2 Allgofnodi
 - 7.3 Newid Eich Cyfrinair
 - 7.4 Gwiriad dau ffactor
 - 7.5 Llyfr Ffôn
 - 7.6 Statws Ar-Alwad
 - 7.7 Hysbysiadau Ap

8 Rhestr yr Achosion

- 8.1 Trosolwg
- 8.2 Dod o Hyd i Achosion
- 8.3 Allgludo Canlyniadau
- 9 Gwedd yr Achosion
 - 9.1 Trosolwg Achosion
 - 9.2 Adroddiad
 - 9.3 Negeseuon
 - 9.4 Amlygu claf ar gyfer therapi endofasgwlaidd
 - 9.5 Data clinigol
 - 9.6 Profion clinigol
 - 9.7 e-ASPECTS Arddangos
 - 9.8 Amlygu Rhyngweithiol e-ASPECTS
 - 9.9 Amcaniad Uchafswm Dwysedd (MIP)
 - 9.10 Cymorth
 - 9.11 Mwyhau
 - 9.12 Canlyniadau â llaw
 - 9.13 Rhannu Achosion
- 10 Arddangoswr Symudol
 - 10.1 Rhestr yr Achosion
 - 10.2 Adroddiad
 - 10.3 Gwedd Sgan
 - 10.4 Dewislen
 - 10.5 Rhannu Achosion
- 11 Allbynnau Canlyniad
 - 11.1 DICOM
 - 11.2 Hysbysiadau E-bost
 - 11.3 Adroddiadau achos
 - 11.4 Cysoni Cymheiriad-i-Gymheiriad
 - 11.5 Cysoni'r Cwmwl
 - 11.6 Hysbysiadau Ap Symudol
- 12 Yn Ianlwytho ac yn Prosesu
 - 12.1 Yn Prosesu Sganiau
 - 12.2 Y log DICOM
- 13 Gweinyddiaeth
- 14 Datrys Problemau
- 15 Cynnal a Chadw a Gwelliannau Gwasanaeth
- 16 Adrodd am Ddigwyddiadau
- 17 Dadgomisiynu
- 18 Symbolau
- 19 Gofyn am Gopi Papur

Gwybodaeth Rheoleiddio

 Brainomix Limited First Floor Seacourt Tower West Way Oxford OX2 0JJ Y Deyrnas Unedig	 0197 EU/EEA/Twrci <table><tr><td>  EC REP </td><td> Emergo Europe B.V. Westervoortsedijk 60 6827 AT Arnhem Netherlands </td></tr><tr><td>  </td><td> Brainomix Europe Limited Suite 10380 26/27 Upper Pembroke Street D02 X361, Dublin 2 Ireland </td></tr></table>	 EC REP	Emergo Europe B.V. Westervoortsedijk 60 6827 AT Arnhem Netherlands		Brainomix Europe Limited Suite 10380 26/27 Upper Pembroke Street D02 X361, Dublin 2 Ireland
 EC REP	Emergo Europe B.V. Westervoortsedijk 60 6827 AT Arnhem Netherlands				
	Brainomix Europe Limited Suite 10380 26/27 Upper Pembroke Street D02 X361, Dublin 2 Ireland				
 +44 (0) 1865 582740 (tel:+441865582740)	Y Swistir <table><tr><td>  CH REP </td><td> Freyr Life Sciences GmbH Bahnhofplatz CH-6300 Zug Y Swistir </td></tr><tr><td>  </td><td> Stryker Osteonics AG Burgunderstrasse 13 4562 Biberist Y Swistir </td></tr></table>	 CH REP	Freyr Life Sciences GmbH Bahnhofplatz CH-6300 Zug Y Swistir		Stryker Osteonics AG Burgunderstrasse 13 4562 Biberist Y Swistir
 CH REP	Freyr Life Sciences GmbH Bahnhofplatz CH-6300 Zug Y Swistir				
	Stryker Osteonics AG Burgunderstrasse 13 4562 Biberist Y Swistir				
 LinguaVox, S.L. Pl. Portal de Elche, 6 03001 Alicante Spain					

1 Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

Mae Brainomix 360 e-ASPECTS yn ddyfais feddygol feddalwedd ar gyfer prosesu sganiau Tomograffeg Gyfrifedig (CT) yr ymennydd ar gyfer cleifion strôc. Fe'i cyflenwir fel gwasanaeth gwe, gyda defnyddwyr yn cyrchu'r system trwy borwr gwe ar unrhyw beiriant sydd â chysylltiad â meddalwedd Brainomix 360 (e.e. cysylltiad LAN neu Rhyngrwyd) a gall gysylltu â dyfeisiau eraill sy'n cydymffurfio â DICOM dros gysylltiad rhwydwaith lleol, gan gynnwys sganwyr CT a systemau PACS.

Fel arfer, dylid anfon sganiau CT ymennydd heb gyferbynnedd cleifion strôc trwy weithrediad DICOM C-STORE o sganiwr CT i feddalwedd Brainomix 360. Gellir ffurfweddu Brainomix 360 i drosglwyddo'r gyfres canlyniadau a gynhyrchwyd yn awtomatig i PACS trwy weithrediad DICOM C-STORE. Gellir ffurfweddu Brainomix 360 hefyd i anfon canlyniadau ac adroddiadau achos i gyrchfannau ychwanegol, pryd bynnag y bydd y feddalwedd yn prosesu sgan. Gall y gyrchfannau hyn gynnwys achosion Brainomix 360 Cloud neu achosion Brainomix 360 eraill, hysbysiadau ap Brainomix 360 Mobile, a hysbysiadau e-bost awtomatig wedi'u ffug-enwi gyda delweddau CT a chanlyniadau gwreiddiol ynghlwm.

1.2 ASPECTS

System sgorio topograffig yw ASPECTS (Sgôr CT Cynnar Rhaglen Strôc Alberta) sy'n rhannu ardal yr ymennydd y mae'r strôc yn effeithio arni yn 10 ardal o ddiddordeb. Mae chwe ardal cortigol (M1-M6), a phedair ardal ganglia gwaelodol (cynffonnog, lentiform, inswla, a chapsiwl mewnol). Ar gyfer pob un o'r pwyntiau diffiniedig, mae un pwynt yn cael ei dynnu ar gyfer maes o newid isgemia cynnar, megis teneuad parencymal. Mae sgôr o sero yn nodi difrod isgemia gwasgaredig drwy'r hemisffer yr effeithir arno, tra bod gan sgan CT ymennydd arferol ASPECTS o 10 pwynt.

Sylwer nad yw newidiadau isgemia sydd ddim yn aciwt yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo sgôr ASPECTS.

pc-ASPECTS

System sgorio ychwanegol i'w defnyddio mewn strôc cylchrediad ôl yw pc-ASPECTS (ASPECTS cylchrediad ôl) fel y'i diffinnir yn Puetz et al., Stroke, 2008 (<https://doi.org/10.1161/STROKEAHA.107.511162>). Mae'n rhannu'n 8 maes o ddiddordeb: thalami (1 pwynt yr un), llabed y gwegil (1 pwynt yr un), craidd yr ymennydd (2 bwynt), pons (2 bwynt), hemisffer serebelaidd (1 pwynt yr un). Rhoddir pc-ASPECTS o 10 pwynt i sgan CT ymennydd arferol.

Sylwer nad yw sgôr pc-ASPECTS, newidiadau isgemia aciwt a heb fod yn aciwt yn yr ardaloedd pc-ASPECTS yn cael eu cyfrifo gan e-ASPECTS.

2 Defnydd arfaethedig

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ddiogelwch ynghylch defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS

Mae Brainomix 360 e-ASPECTS yn becyn meddalwedd prosesu delweddau i'w ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig, gan gynnwys meddygon strôc a radiolegwyr. Mae'r feddalwedd yn rhedeg ar galedwedd safonol 'oddi ar y silff' (ffisegol neu rithwir). Mae data a delweddau'n cael eu caffael drwy ddyfeisiau delweddu sy'n cydymffurfio â DICOM. Mae hyn yn cynnwys ffeiliau DICOM a uwchlwythwyd drwy ryngwyneb gwe.

Mae Brainomix 360 e-ASPECTS yn darparu galluedd dadansoddi a gweld ar gyfer setiau data CT ymennydd cleifion strôc. Mae'r galluedd dadansoddi ar gyfer canfod newidiadau yn y ddelwedd sy'n gysylltiedig â strôc, cyfrifo maint y newidiadau hyn (megis ASPECTS, Sgôr CT Cynnar Rhaglen Strôc Alberta), a delweddu'r newidiadau hyn.

2.1 Dangosyddion

1. Mae Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i nodi fel cymorth i ddiagnosisio a thrin cleifion strôc isgemig aciwt sydd â rhwystr MCA (rhydveli ymennydd canol) neu rwystr ICA (rhydveli carotid mewnol).
2. Mae Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i nodi i'w ddefnyddio ar sganiau CT ymennydd heb gyferbynnedd ar gyfer y cleifion hyn fel offeryn cefnogi penderfyniadau, gan ddarparu dadansoddiad delwedd awtomataidd a sgorio ASPECTS.
3. Mae (ON_PREM_DISPLAY_NAME)s e-ASPECTS wedi'i nodi i'w ddefnyddio ar sganiau CT yr ymennydd heb gyferbynnedd i amlygu gor-ddwyseddau annormal a amheuir trwy ddadansoddi delweddau awtomataidd.

2.2 Gwrtharwyddion

1. Nid yw Brainomix 360 e-ASPECTS yn addas i'w ddefnyddio ar sganiau ymennydd sy'n dangos patholegau niwrolegol heblaw strôc aciwt, fel tiwmorau neu absesau.
2. Ni ddylid defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS gan unrhyw un sydd â nam corfforol neu nam arall a fyddai'n rhwystro eu gallu i ganfod a dehongli allbwn y feddalwedd neu'n eu gwneud yn analluog i ddehongli delweddau heb gymorth e-ASPECTS i gadarnhau unrhyw allbynnau.

2.3 Rhybuddion

	Ni ddylid defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS fel yr unig sail ar gyfer diagnosis. Ni ddylid ystyried yr allbwn fel diagnosis pendant. Dim ond gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig sydd â dealltwriaeth o ddehongli delweddau CT y dylid defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS, fel cymorth i ddehongli delweddau.
	Dim ond gan weithwyr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant digonol ar ddefnyddio'r feddalwedd gan hyfforddwyr cymwys Brainomix neu drydydd partion awdurdodedig y dylid defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS.

	Efallai na fydd Brainomix 360 e-ASPECTS yn canfod pob trawiad ar y trawiad cronig (hen) neu gallant eu dosbarthu'n anghywir fel difrod isgemig ffres.
	Ni fydd Brainomix 360 e-ASPECTS yn nodi newidiadau isgemig cynnar yn gywir ym mhob sgan a gallant gynhyrchu canlyniadau positif ffug neu ganlyniadau negatiffug mewn unrhyw ranbarth. Dylai'r defnyddiwr ddefnyddio ei arbenigedd ei hun mewn dadansoddi delweddau CT i wirio bod allbwn y feddalwedd yn gywir.
	Efallai na fydd Brainomix 360 e-ASPECTS yn canfod pob gor-ddwysedd annormal neu gallant amlygu ardaloedd o'r ddelwedd nad ydynt yn or-ddwysedd annormal yn anghywir.
	Nid yw e-ASPECTS wedi'i fwriadu ar gyfer dehongliad cynradd o ddelweddau CT. Fe'i defnyddir i gynorthwyo gwerthusiad meddygon.
	Gall achosion ag annormaleddau strwythurol fel tiwmorau neu arteffactau delweddu eraill efelychu symptomau strôc isgemig a gallant effeithio ar berfformiad Brainomix 360 e-ASPECTS. Ni ddylid defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS yn yr achosion hyn. Gall achosion eraill gyda chyflyrau strôc nad ydynt yn isgemig a sganiau sydd â strwythur arferol hefyd efelychu symptomau strôc isgemig ac ni ddylid eu prosesu gan ddefnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS.
	Dim ond o fewn rhwydwaith diogel sy'n destun mesurau amddiffynnol priodol gan gynnwys amddiffyniad gwrthfeirws, gwrthfaleiswedd a wal dân y dylid gosod Brainomix 360 e-ASPECTS.
	Er mwyn lleihau'r risg o ddefnydd heb awdurdod o Brainomix 360 e-ASPECTS, ni ddylai defnyddwyr rannu manylion mewngofnodi a dylent allgofnodi pan nad ydynt yn defnyddio'r system.
	Rhaid i ddefnyddwyr sy'n cyrchu rhyngwyneb defnyddiwr gwe Brainomix 360 e-ASPECTS sicrhau eu bod yn cynnal unrhyw ddadansoddiad neu adolygiad delwedd diagnostig gan ddefnyddio arddangosfa gwyllo radioleg gymeradwy.
	Nid yw Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i fwriadu ar gyfer adolygu delweddau diagnostig pan gaiff ei gyrchu o ddyfeisiau symudol.
	At ddibenion gwybodaeth yn unig y mae delweddau a ragwelir drwy e-bost ac ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio at ddibenion diagnostig. Mae delweddau sy'n cael eu rhagweld drwy e-bost wedi'u cywasgu a all arwain at ddirywiad y delweddau.
	Cyn gwerthuso'r canlyniadau prosesu, dylid adolygu cywirdeb y ardaloedd ASPECTS sydd wedi'u segmentu'n awtomatig. Os oes unrhyw anghytundeb neu bryder ynghylch ansawdd segmentu rhanbarth ASPECTS, dylai defnyddwyr naill ai olygu'r canlyniadau â llaw neu anwybyddu'r canlyniadau.
	Os na fydd Brainomix 360 e-ASPECTS ar gael yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu os nad oes modd adfer achosion wedi'u prosesu, dylai defnyddwyr ddibynnu ar ddulliau safonol o ddehongli delwedd yn unol â safon y gofal.
	Dylai defnyddwyr sicrhau bod hysbysiadau wedi'u galluogi ar eu dyfeisiau symudol Android neu iOS er mwyn derbyn hysbysiad.

	Efallai na fydd hysbysiad yn cael ei gynhyrchu neu efallai y bydd yn cael ei ohirio am sawl rheswm, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: ▪ Problemau data algorithmig neu wallau prosesu wrth ddadansoddi sganiau (gweler Rhagofalon am ragor o wybodaeth) ▪ Arteffactau, symudiad neu ffactorau eraill sy'n lleihau ansawdd cofrestru Diffyg lle ar y ddisg i brosesu sganiau newydd ▪ Methiant sylfaenol plattform gweinydd ▪ Cysylltedd rhwydwaith araf ▪ Cysylltedd araf o'r sganiwr/PACS i'r gweinydd Brainomix 360 ▪ Cysylltedd araf i'r gwasanaeth Brainomix 360 Cloud dros y rhyngrwyd ▪ Oedi yng ngwasanaethau hysbysu symudol Apple neu Google ▪ Signal gwael ar y ddyfais symudol sy'n derbyn ▪ Gall moddau arbed pŵer rhai dyfeisiau symudol ohirio hysbysiadau
---	--

2.4 Rhagofalon

	Mae perfformiad Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i gyfyngu gan ansawdd y ddelwedd CT mewnbyn. Os yw Brainomix 360 e-ASPECTS yn derbyn data o ansawdd gwael, annilys neu lygredig, gall effeithio ar allu'r system i brosesu canlyniadau'n effeithiol. Felly, dylai'r defnyddiwr archwilio'r ddelwedd â llaw am arteffactau sganiwr a delweddau o ansawdd gwael er mwyn osgoi canlyniadau anghywir.
	Mae Brainomix 360 e-ASPECTS yn dibynnu ar weithrediad cywir y plattform gweinydd sylfaenol y mae wedi'i osod arno ac nid yw wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio fel storfa ddata. Dylid storio canlyniadau a data gwreiddiol mewn system PACS a gwneud copi wrth gefn priodol.
	Dim ond mewn poblogaethau cleifion sy'n oedolion y mae Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i ddilysu a bwriedir ei ddefnyddio. Nid yw diogelwch ac effeithiolrwydd mewn achosion pediatrig wedi'i sefydlu.

2.5 Manteision Clinigol

Prif fantais Brainomix 360 e-ASPECTS yw rhoi sgôr ASPECTS cyfeirio i'r defnyddiwr bwriadedig gyda sensitifrwydd a manylder ar lefel arbenigwr.

2.6 Amgylchedd Defnydd

Bwriedir defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS ar ddyfeisiau bwrdd gwaith neu symudol sydd wedi'u cymeradwyo gan y sefydliad gofal iechyd ar gyfer defnydd clinigol. Mae'r wedd bwrdd gwaith a symudol ill dau yn cynnig manteision i'r ddyfais; fodd bynnag, ni ddylid defnyddio delweddau rhagolwg symudol fel cymorth ar gyfer darlleniadau diagnostig.

3 Gosod a Hyfforddiant

Cyn defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS am y tro cyntaf, mae angen gosod y feddalwedd a hyfforddi ei defnyddiwr/defnyddwyr.

3.1 Gosod

Gellir gosod Brainomix 360 e-ASPECTS ar gyfer eich sefydliad naill ai drwy osod gweinydd yn y cwmwl neu osod gweinydd ffisegol lleol. Cyn y gosodiad, mae Brainomix (neu ddosbarthwr awdurdodedig) yn casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol am y gosodiad, gan gynnwys lleoliad, gofynion pŵer a rhwydweithio ac unrhyw systemau trydydd parti a allai rhyngweithio â'r feddalwedd Brainomix 360 e-ASPECTS. Cysylltu â Brainomix neu ddosbarthwr awdurdodedig ynghylch y dull a'r gofynion ar gyfer gosod.

Er mwyn defnyddio'r feddalwedd ar ddyfeisiau symudol (ffôn clyfar a thabled), lawrlwythwch yr ap Brainomix 360 Mobile ar eich dyfais:

- App Store (ar gyfer dyfeisiau iOS) (<https://apps.apple.com/us/app/e-stroke-mobile/id1443749413>)
- Google Play (ar gyfer dyfeisiau Android) (<https://play.google.com/store/apps/details?id=com.brainomix.ess.android&gl=US>)

Dilynwch gyfarwyddiadau eich dyfais symudol i gwblhau'r broses osod.

3.2 Hyfforddiant

Mae defnyddio Brainomix 360 e-ASPECTS yn gofyn am gymhwysedd wrth ddehongli sganiau CT heb gyferbynnedd ar gyfer rheoli cleifion â strôc isgemig aciwt. Mae angen hyfforddiant cyn defnyddio'r feddalwedd am y tro cyntaf. Trefnir yr hyfforddiant ymlaen llaw a'i gyflwyno gan hyfforddwyr cymwys Brainomix (neu hyfforddwyr trydydd parti a benodir gan Brainomix) ar adeg y gosodiad cychwynnol i gynrychiolydd(ion) clinigol a/neu TG eich sefydliad. Wedi hynny, gellir hyfforddi defnyddwyr newydd i ddefnyddio'r feddalwedd gan yr hyfforddwr/hyfforddwyr arweiniol dynodedig yn eich sefydliad. Bydd Brainomix yn cyfathrebu a oes angen unrhyw hyfforddiant newydd yn dilyn y defnydd cychwynnol. Am unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â hyfforddiant, cysylltwch â phrif hyfforddwr/hyfforddwyr eich sefydliad neu cysylltwch â Brainomix yn support@brainomix.com (<mailto:support@brainomix.com>)

4 Manylebau System

4.1 Gweinydd

Dylid ystyried y canlynol yn fanylbau gofynnol ar gyfer defnydd dibynadwy o'r rhaglen.

Prosesydd	Prosesydd cydnaws â x86-64 gyda 4 craidd ar 3.0+ GHz neu 6 craidd ar 2.4+ GHz yn cefnogi SSE4.2 cyfarwyddiadau (e.e. Intel Core i5, i7, Xeon)
Cof	8GB
Disg	100GB
Rhwydwaith	1Gb Ether-rwyd
System Weithredu	Ubuntu Linux 22.04

4.2 Cleientiaid

Dylid ystyried y porwyr gwe a'r llwyfannau canlynol yn ofynion sylfaenol ar gyfer gweithrediad dibynadwy rhyngwyneb defnyddiwr y we.

Porwr Gwe	Fersiwn wedi'i Gefnogi
Google Chrome	Fersiwn ddiweddaraf
Mozilla Firefox	Fersiwn ddiweddaraf
Microsoft Edge	Fersiwn ddiweddaraf
Mobile Safari (iOS)	Fersiwn ddiweddaraf

Platfform	Isafswm Manylebau
Cyfrifiadur Personol (desg neu liniadur)	Cof: 4GB RAM Maint y sgrin: 13.3 modfedd ac uwch Cydraniad y sgrin: 1024 x 768 Prosesyddr: Intel neu AMD CPU
iPad	Cof: 2GB RAM Maint y sgrin: 9.4 modfedd ac uwch Cydraniad y sgrin: 2048 x 1536
Ffôn symudol (iPhone neu Android)	Cof: 2GB RAM Maint y sgrin: 4.7 modfedd ac uwch Cydraniad y sgrin: 1334 x 750

4.3 Ieithoedd

Cefnogir yr ieithoedd canlynol yn y fersiwn gyfredol o'r feddalwedd.

- Bwlgareg (bg)
- Tsieceg (cs)
- Cymraeg (cy)
- Almaeneg (de)
- Groeg (el)
- Saesneg (en)
- Sbaeneg (es)
- Ffineg (fi)
- Ffrangeg (fr)
- Croateg (hr)
- Hwngareg (hu)
- Eidaleg (it)
- Llatfieg (lv)
- Lithwaneg (lt)
- Iseldireg (nl)
- Pwyleg (pl)
- Portiwgaleg (pt)
- Portiwgaleg (Brasil) (pt-br)
- Rwmaneg (ro)
- Serbeg (sr)
- Slofaceg (sk)
- Slofeneg (sl)
- Swedeg (sv)
- Twrceg (tr)

4.4 Perfformiad ac Oes

Mae'r manylebau perfformiad canlynol yn berthnasol i'r fersiwn gyfredol o'r feddalwedd.

Amser prosesu (fesul sgan CT)	≤ 1 munud (ar ôl adfer o'r PCS neu ar ôl cwblhau uwchlwytho)
Sensitifrwydd	cyfartaledd isafswm 50%
Penodolrwydd	cyfartaledd isafswm 94%

Darperir taflen ddata dechnegol ar wahân ar gyfer platfform Brainomix 360 gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i adran TG eich sefydliad ar adeg y gosodiad cyntaf ac mae ar gael ar gais.

Mae oes cynnyrch Brainomix 360 e-ASPECTS yn amhenodol ar gyfer y fersiwn feddalwedd gyfredol ac am hyd y ddarpariaeth gwasanaeth dan gontract pan gaiff ei ddefnyddio ar beiriant rhithwir sy'n derbyn diweddariadau meddalwedd rheolaidd gan Brainomix.

5 Cyfaddasrwydd Sganiwr a Delwedd

Mae meddalwedd Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i gynllunio i weithio gyda sganiau CT heb gyferbynnedd a anfonir trwy'r protocol DICOM. Dylai fod gan y sganiau hyn y nodweddion canlynol:

Trwch y darn	Trwch darn uchafswm o 2mm
Cyfaint derbyn	Dilyniant serebrwm unigol o gylch lefel Willis neu is, hyd at y corun
Dull adlunio	Amcaniad wedi'i hidlo'n ôl (FBP) gyda chnewyllyn hidlo cymedrol (h.y. dim miniogi neu lyfnu gormodol). Mae'n bosibl y bydd dulliau adlunio iteraidd gyda maint cnewyllyn bach (dim gormod o lyfnu) hefyd yn gweithio ond bydd angen eu profi ar y safle.
Ffenestr	Ffenestr ymennydd (nid ffenestr asgwrn)

Gall defnyddio darnau mwy trwchus neu ddulliau ail-greu eraill (e.e. ail-greu iterus) arwain at gyflwyno arteffactau delwedd, ac o ganlyniad perfformiad sgorio is.

Bydd defnyddio'r ffenestr anghywir fel arfer yn arwain at Brainomix 360 e-ASPECTS yn methu â phrosesu'r sgan.

Mae'n debygol y bydd sganiau CT a gesglir ar ôl cyferbyniad, hyd yn oed ar ôl sawl awr, yn dal i gynnwys olion o ddeunydd cyferbyniad a fydd yn effeithio'n andwyol ar algorithmau canfod y feddalwedd.

6 Seiberddiogelwch

Mae Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i osod ar weinydd (naill ai'n gorfforol neu'n rhithwir) o fewn rhwydwaith yr ysbyty ac felly mae'n agored i unrhyw faleiswedd neu firsau sy'n treiddio i rwydwaith yr ysbyty lle mae Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i fewnosod, neu i unrhyw fath arall o fynediad heb awdurdod.

Nid yw Brainomix 360 e-ASPECTS yn cyflwyno bregusrwydd penodol i rwydwaith yr ysbyty lle mae wedi'i fewnosod ac mae'n annhebygol y caiff ei gamfanteisio'n fwriadol. Fodd bynnag, pe bai risgiau o'r fath yn digwydd, gallent arwain at lygru neu golli data prosesu sy'n cael ei dderbyn, ei storio neu ei anfon, llygru, colli neu ddifrodi data ffurfweddu sydd wedi'i storio neu ymyrryd neu atal gweithrediad arferol.

Mae Brainomix 360 wedi'i gynllunio a'i ddatblygu gyda nodweddion a gofynion i liniaru'r risgiau seiberddiogelwch hyn. Yn benodol, mae'r system wedi'i chynllunio fel bod:

- Mynediad defnyddwyr yn cael ei gyfyngu a'i reoli
- Nid oes mynediad i gydrannau storio data dros rwydwaith ac eithrio trwy gydrannau gwasanaeth gwe Brainomix
- Dim ond y nifer lleiaf o borthladdoedd sy'n ofynnol ar gyfer yr holl swyddogaeth sydd ar agor
- Trosglwyddo data ar draws cysylltiadau di-ymddiried yn cael ei ddiogelu a'i amgryptio
- Gall Brainomix fonitro'r system o bell a gosod diweddariadau diogelwch yn ddiogel yn ôl yr angen

Mae Brainomix 360 e-ASPECTS wedi'i gynllunio i ddefnyddio model awdurdodi haenog yn seiliedig ar rolau defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddwyr safonol sy'n cyrchu ac yn defnyddio'r system a Gweinyddwyr sydd â breintiau ychwanegol i'w galluogi i wneud y canlynol:

- Cael mynediad at ddata cleifion neu gyfluniad system
- Gosod a rheoli opsiynau diogelwch
- Dileu data/sganiau cleifion
- Addasu neu ddileu defnyddwyr

Mae'r pecyn gosod ar gyfer Brainomix 360 e-ASPECTS yn cynnwys wal dân leol, amddiffyniad gwrthfeirws a gwrthfaleiswedd ar gyfer y gweinydd. Gellir newid neu ddiwygio'r rhain i gyd-fynd â pholisïau diogelwch lleol; fodd bynnag, mae'n bwysig bod Gweinyddwyr yn cysylltu â chymorth Brainomix cyn tynnu neu ail-gyflunio'r amddiffyniadau diodyn hyn er mwyn osgoi peryglu diogelwch y system.

Er mwyn atal mynediad heb awdurdod, mae Brainomix 360 e-ASPECTS yn cynnwys enw defnyddiwr/cyfrinair a mecanweithiau dilysu dau ffactor a ddisgrifir yn adran Rheoli Mynediad y llawlyfr defnyddiwr hwn.

Os yw defnyddwyr neu weinyddwyr yn amau bod manylion mewngofnodi defnyddiwr wedi'u peryglu, dylid newid y cyfrinair ar unwaith, neu analluogi'r cyfrif.

Gellir gosod ac ailosod cyfrineiriau gan ddefnyddwyr a/neu weinyddwyr ond rhaid iddynt fodloni'r gofynion cymhlethdod cyfrinair lleiaf. Mae gofynion cymhlethdod cyfrinair lleiaf wedi'u gosod yn ddiodyn ond gellir eu ffurfweddu gan Weinyddwyr i hwyluso opsiynau ar gyfer mwy o gymhlethdod lle mae hyn yn ofynnol neu'n cael ei orfodi gan bolisïau diogelwch lleol.

Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys gosod y defnydd gorfodol o nodau arbennig, creu rhestrau du o gyfrineiriau na ellir eu defnyddio a gosod yr oedran uchaf ar gyfer ailosod cyfrineiriau. Mae dilysu dau ffactor yn ddewisol yn ddiodyn ond gall Weinyddwyr hefyd ei orfodi.

Gellir gosod Brainomix 360 e-ASPECTS i analluogi cyfrifon defnyddwyr yn awtomatig nad ydynt wedi bod yn weithgar am gyfnod penodol ac, ar gyfer defnyddwyr gweithredol, mae hefyd yn cynnwys nodwedd amser allan awtomatig a fydd yn allgofnodi defnyddwyr ar ôl cyfnod o anweithgarwch.

Er mwyn lleihau'r risg o ddefnydd anawdurdodedig o Brainomix 360 e-ASPECTS, ni ddylai defnyddwyr rannu manylion mewngofnodi mynediad a dylent allgofnodi ar unwaith pan nad ydynt yn defnyddio'r system.

Gall gweinyddwyr hefyd ddewis defnyddio cyfrifon defnyddwyr Active Directory (trwy LDAP) yn lle'r system ddilysu Brainomix ddiofyn.

Er bod amryw o fesurau seiberddiogelwch wedi'u cynllunio a'u gweithredu, mae'r lliniaru llwyddiannus yn erbyn gwendidau diogelwch ar gyfer Brainomix 360 e-ASPECTS yn dibynnu ar seilwaith diogelwch amgylchedd rhwydwaith yr ysbyty, arfer gorau gan ddefnyddwyr a rheolaeth gan Weinyddwyr.

Dim ond o fewn rhwydwaith ysbyty diogel y dylid gosod Brainomix 360 e-ASPECTS sydd wedi'i amddiffyn gan wal dân lefel rhwydwaith, meddalwedd gwrthfeirws a gwrthfaleiswedd ac, yn ddelfrydol, Meddalwedd Canfod Ymyrraeth (IDS).


Dylai peiriannau cleient a ddefnyddir i gael mynediad at y gweinydd sy'n cynnal Brainomix 360 e-ASPECTS hefyd gael eu hamddiffyn gan feddalwedd gwrthfeirws/gwrthfaleiswedd ac IDS a dylid eu cadw'n gyfredol gyda diweddariadau diogelwch.

7 Rheoli Mynediad a Hysbysiadau

7.1 Mewngofnodi


1. Ewch i'r Brainomix 360 neu gyfeiriad gweinydd Brainomix 360 Cloud yn eich porwr gwe.
2. Gofynnir i chi fewngofnodi os nad ydych wedi defnyddio'r rhaglen yn ddiweddar o'ch porwr gwe presennol. Gall gweinyddwr eich system ddarparu manylion mewngofnodi.

Brainomix 360:



The image shows a login interface for Brainomix 360. It has a dark blue background with white text. The title 'LOG IN' is at the top. Below it are two input fields: 'Username' with the value 'user@brainomix.com' and 'Password' with masked characters. There is a link 'Forgot password?' and a checkbox 'Keep me signed in'. A 'LOGIN' button is at the bottom right.

Brainomix 360 Cloud:




The image shows a 'SELECT ORGANISATION' form for Brainomix 360 Cloud. It has a dark blue background with white text. The title 'SELECT ORGANISATION' is at the top. Below it is a text input field with the placeholder 'Organisation' and a question mark icon. A 'NEXT' button is at the bottom right.

1. Os byddwch yn mewngofnodi i Brainomix 360 Cloud, nodwch ID eich sefydliad
 2. Nodwch eich enw defnyddiwr
 3. Nodwch eich cyfrinair
 4. Peidiwch â thicio'r blwch os byddwch yn dymuno cael eich allgofnodi'n awtomatig ar ôl 1 awr, neu pan fyddwch yn gadael y porwr. Ticiwch y blwch os byddwch yn dymuno aros wedi mewngofnodi ar y cyfrifiadur hwn tan eich bod yn allgofnodi.
 5. Cliciwch y botwm cyflwyno neu gwasgwch enter
3. Os byddwch wedi anghofio eich cyfrinair, gallwch ofyn am e-bost ailosod cyfrinair trwy glicio ar y botwm 'Wedi anghofio cyfrinair?'

4. Os byddwch wedi cofrestru ar gyfer dilysiad dau ffactor, efallai gofynnir i chi nodi cod tocyn o'ch ap dilysu.
 - Dewiswch 'Ymddiried yn y cleient hwn' i osgoi cael eich gofyn am god tocyn eto ar y ddyfais neu'r porwr hwn. Peidiwch â defnyddio'r opsiwn hwn ar ddyfeisiau a rennir.
 - Os na allwch gael cod tocyn o'ch ap dilysu, gallwch nodi cod adfer na ddefnyddiwyd o'r rhestr a roddir wrth gofrestru ar gyfer dilysiad dau ffactor.

7.2 Allgofnodi


1. Dewiswch eich enw defnyddiwr ar ochr dde'r bar llywio



2. Cliciwch **Allgofnodi**

7.3 Newid Eich Cyfrinair


1. Dewiswch eich enw defnyddiwr ar ochr dde'r bar llywio



2. Cliciwch **Eich proffil**
3. Cliciwch ar y tab wedi'i labelu **Newid cyfrinair**
4. Nodwch eich hen gyfrinair yn ogystal â'ch un newydd (Mae'n rhaid i gyfrineiriau fodloni gofynion cymhlethdod lleiafswm: 8 nod gydag o leiaf un rhif a llythyren.)
5. Cliciwch **Cadw** neu gwasgwch enter

7.4 Gwiriad dau ffactor

1. Dewiswch eich enw defnyddiwr ar ochr dde'r bar llywio




2. Cliciwch **Eich proffil**
3. Cliciwch ar y tab wedi'i labelu **Dilysiad dau ffactor**
4. Cliciwch y botwm **cofrestrul**.
5. Dilynwch y cyfarwyddiadau cofrestru ar y sgrin.

7.5 Llyfr Ffôn


Mynediad

1. Gellir defnyddio'r llyfr ffôn bob amser drwy'r ap a'r rhyngwyneb defnyddiwr bwrdd gwaith os oes gan unrhyw ddefnyddwyr yn eich sefydliad rifau ffôn wedi'u cadw.



Defnydd


1. Arddangosir pob defnyddiwr a chofnod sydd â rhif ffôn penodedig a gellir eu ffonio.
2. Wrth ddechrau galwad i ddefnyddiwr arall, cofnodir yr alwad a gellir ei gweld ym mhroffil defnyddiwr y ddau ddefnyddiwr.
3. Os defnyddir y llyfr ffôn o achos, cofnodir unrhyw alwadau a wneir fel rhan o'r achos a bydd y galwadau'n ymddangos yn hanes negeseuon yr achos.



7.6 Statws Ar-Alwad

Ffurfweddu


1. Gellir ffurfweddu eich statws ar-alwad trwy'r ap. Gallwch ddewis bod ar alwad neu beidio, a pha sefydliadau y byddwch ar alwad ar eu cyfer.



7.7 Hysbysiadau Ap

1. Gallwch ddewis derbyn hysbysiadau bob amser, dim ond eu derbyn pan fyddwch ar alwad i sefydliad, neu beidio byth â'u derbyn.

2. Gellir ffurfweddu'r gosodiadau hyn trwy dapio 'Hysbysiadau' yn newislen yr ap ar gyfer sefydliad.



Er mwyn derbyn hysbysiadau o'r ap Brainomix 360 Mobile, rhaid i chi sicrhau bod hysbysiadau wedi'u galluogi ar eich dyfais symudol. Gellir gwneud hyn wrth osod yr ap Brainomix 360 Mobile ar eich dyfais symudol neu gellir ei osod yn ddiweddarach gan ddilyn y camau isod.

iOS

- Lansiwch yr ap Gosodiadau.
- Tapiwch Hysbysiadau.
- Scroliwch i Brainomix 360 Mobile > Tapiwch.
- Toglwch y switsh **Caniatáu Hysbysiadau** i **Ymlaen** i alluogi hysbysiadau.
- Toglwch y switsh **Hysbysiadau Sensitif i Amser** i **Ymlaen** (mae hysbysiadau bob amser yn cael eu danfon ar unwaith ac yn aros ar y Sgrin Gloi am awr).
- Dewiswch eich dewisiadau rhybuddio - argymhellir dewis popeth (Sgrin Gloi, Canolfan Hysbysiadau a Baneri) a gosod yr **Arddull Baner** i **Parhaus**.
- Toglwch y switshys **Seiniau a Bathodynnau** i **Ymlaen** (argymhellir).

Android


- Lansiwch yr ap Gosodiadau.
- Tapiwch Hysbysiadau.
- Scroliwch i Brainomix 360 Mobile > Tapiwch.
- Tapiwch Hysbysiadau.
- Toglwch y switsh **Caniatáu Hysbysiadau** i **Ymlaen** er mwyn galluogi hysbysiadau, gan gynnwys negeseuon, synau a dirgryniad.
- Toglwch y switsh **Dangos yn ddistaw** i **Diffodd** (argymhellir).

- Toglwch y switsh **Gosod fel blaenoriaeth i Ymlaen** i droi'r sgrin ymlaen tra bod 'Peidiwch â tharfu' wedi'i droi ymlaen (argymhellir).

8 Rhestr yr Achosion

8.1 Trosolwg

Defnydd safonol



- Mae'r dudalen rhestr achosion yn dangos yr holl achosion sydd ar gael i chi. Yn ddiofyn, fe'u rhestrir yn nhrefn dyddiad yr achos diweddaraf. Bydd achosion sy'n cael eu prosesu yn dangos canran a gwblhawyd yn y golofn Cyflwr.
- Symudwch trwy dudalennau'r achosion trwy glicio ar rifau'r tudalennau o dan y rhestr.
- Cliciwch ar achos i'w agor yn y Gwyliwr achos (gweler yr adran Gwyliwr Achos).
- Os ydych chi neu rywun arall yn eich sefydliad eisoes wedi gweld achos, dangosir y sgôr ar ddiwedd ei res.
- Cliciwch ar yr eicon ✓ i ehangu manylion yr achos ac ehangwch bob sgan i weld manylion y sgan a chryno-lun o'r sgan.
- I addasu'r colofnau a ddangosir, cliciwch ar y botwm 'Colofnau'. Gall gweinyddwr newid y set rhagosodedig o golofnau ar gyfer eich sefydliad.

8.2 Dod o Hyd i Achosion

Didoli

Didolwch y rhestr achosion trwy glicio ar bennawd gofynnol y golofn; cliciwch ar y teitl eto i wrthdroi'r drefn, fel y dangosir isod:

Name ▲	Name ▼
Example 1	Example 4
Example 2	Example 3
Example 3	Example 2
Example 4	Example 1


Chwilio

Chwiliwch am glaf yn ôl enw, rhif derbyn neu ID trwy nodi testun yn y blwch chwilio uwchben y tabl.

Bydd canlyniadau'n cael eu harddangos mewn adran naidlen wrth i chi deipio. Bydd y rhestr achosion yn diweddarau i ddangos y canlyniadau pan fydd yr allwedd Enter yn cael ei phwyso.


Hidlo

Hidlwch yr achosion gan ddefnyddio'r opsiynau sydd ar gael. Unwaith y dewisir yr opsiwn, dewiswch y gwerthoedd i hidlo yn ôl yn y gwymplen. Os bydd unrhyw sgan mewn achos yn cyfateb i'r dewis, dangosir yr holl sganiau yn yr un achos.



8.3 Allgludo Canlyniadau

1. Dewiswch yr holl achosion yr hoffech eu cynnwys trwy glicio ar eu blychau ticio. Ailadroddwch ar gyfer holl dudalennau perthnasol y rhestr.



Awgrym: I ddewis pob achos ar dudalen, cliciwch y blwch ticio yn y rhes pennyn.

Awgrym: Gallwch newid y gosodiad 'rhesi fesul tudalen' ar waelod y tabl i weld mwy o sganiau ar bob tudalen.

Awgrym: Gallwch agor achos a dewis rhai sganiau o fewn yr achos yn unig os ydych am eu hallforio.

2. Cliciwch ar y botwm **Allgludo** button, a dewiswch allforio y sganiau a ddewiswyd yn unig, neu'r holl sganiau ar bob tudalen.
3. Cliciwch y botwm priodol yn y ffenestr i allgludo mewn fformat CSV neu XLSX.
 - Gellir agor y mathau hyn o ffeiliau mewn amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys Microsoft Excel.
 - Mae'r ffeiliau a lawrlwythwyd yn cynnwys rhes ar gyfer pob achos gyda gwybodaeth adnabod, canlyniadau sgorio, a chyfarwyddiadau ynghylch sut i ddehongli'r wybodaeth a allforiwyd.

9 Gwedd yr Achosion

9.1 Trosolwg Achosion

Mae'r gwyliwr achos yn cynnwys yr holl wybodaeth ar gyfer achos penodol. Dangosir pob sgan sylfaenol yn yr achos mewn tab ar wahân.

Manylion claf

Mae'r adran hon ar y brig yn crynhoi'r wybodaeth bersonol sy'n nodi pwy yw'r claf. Tynnir y manylion hyn o'r ffynhonnell tagiau cyfres DICOM. Noder y gallai'r wybodaeth hon fod wedi'i dileu os yw'r achos wedi'i ffug-enwi, e.e. os yw wedi'i dderbyn trwy gysoni cymheiriad-i-gymheiriad neu os ydych yn edrych ar yr achos ar Brainomix 360 Cloud.

Sganiau Ychwanegol

Efallai y bydd sganiau ychwanegol neu gyfres DICOM yn gysylltiedig â'r achos os yw llifoedd gwaith Gwyliwr CT neu storio DICOM wedi'u ffurfweddu. Gellir cyrchu'r rhain o'r tab Adroddiad.


9.2 Adroddiad

Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb delweddu o'r holl ddulliau delweddu ar gyfer claf, y gellir eu didoli gan ddefnyddio'r opsiynau didoli. Mae pob darn a ddangosir yn yr adroddiad achos yn ddolen i'r gwyliwr darn llawn ar gyfer y sgan perthnasol.

Dangosir canlyniadau pob sgan sylfaenol o dan y crynodeb delweddu.

Mae'r wybodaeth fanwl ar gyfer pob sgan yn yr achos yn cael ei harddangos ar ôl y crynodebau delweddu.

Gallwch lawrlwytho adroddiad PDF o'r achos, neu e-bostio adroddiad PDF yr achos i gyfeiriadau e-bost penodol os yw wedi'i ffurfweddu.



9.3 Negeseuon

Os cawsant eu galluogi gan weinyddwr eich system, gellir gweld negeseuon a'u hanfon ar gyfer achos. Wrth i negeseuon newydd gyrraedd gellir eu gweld yn yr achos ac os ydynt wedi'u ffurfweddu, anfonir hysbysiad ap symudol at bob defnyddiwr cofrestredig.

Bydd negeseuon newydd yn ymddangos ar waelod yr ardal sgwrsio wrth iddynt gael eu derbyn.

I anfon neges, teipiwch yn y blwch ar y gwaelod, a cliciwch ar y botwm anfon sydd i'r dde.

I weld pwy sydd wedi edrych ar neges, pwyswch a dal y neges. Gallwch hefyd glicio ar yr eicon gwybodaeth i weld y rhestr. I gau'r rhestr, cliciwch ar yr eicon cau.

Today

Brainomix 360
Scan processed: CT
09:32 ⓘ

Brainomix 360
Scan processed: CTA
09:34 ⓘ

 Not flagged by clinician for endovascular therapy 



Do not include any identifiable patient data in your message

Today

Read by
Brainomix Admin
(2025-03-04 09:34 GMT) 

Brainomix 360
Scan processed: CTA
09:34 ⓘ

 Not flagged by clinician for endovascular therapy 



Do not include any identifiable patient data in your message

9.4 Amlygu claf ar gyfer therapi endofasgwlaidd

Os yw swyddogaeth negeseuon wedi'i galluogi gan weinyddwr eich system, gallwch amlygu claf ar gyfer therapi endofasgwlaidd o'r adroddiad ac o'r tab negeseuon.

Dewiswch y sefydliadau i amlygu'r claf iddynt a chadarnhau'r amlygiad. Bydd unrhyw ddefnyddwyr yn y sefydliadau dethol sydd â hysbysiadau therapi endofasgwlaidd wedi'u ffurfweddu yn cael eu hysbysu bod y claf wedi'i amlygu.

Gellir canslo'r amlygiad os oes angen, a bydd unrhyw ddefnyddwyr yn y sefydliadau dethol sydd â hysbysiadau therapi endofasgwlaidd wedi'u canslo wedi'u ffurfweddu yn cael eu hysbysu ei fod wedi'i ganslo.



9.5 Data clinigol

Os cafodd ei galluogi gan weinyddwr eich system, bydd yr adran data clinigol ar gael mewn tab ar wahân. Gellir ei defnyddio i gadw data clinigol ychwanegol ar gyfer y claf. Gellir gweld yr holl ddata clinigol a gadwyd yn flaenorol trwy glicio 'Gweld hanes'.

Gellir nodi'r ochr yr effeithiwyd arni o'r cyflwyniad clinigol yma, ac os yw'n wahanol i'r ochr a ganfyddir yn awtomatig, yna diweddarir y canlyniadau i ddefnyddio'r ochr glinigol.

Gellir nodi cyfanswm sgôr NIHSS sydd wedi'i rag-gyfrifo yn uniongyrchol, neu gallwch ei chyfrifo'n rhyngweithiol trwy glicio 'Cyfrifo sgôr' a nodi'r sgôr ar gyfer pob eitem yn y ffurflen.

Gellir golygu'r holl feysydd data clinigol eraill i ychwanegu'r wybodaeth glinigol neu eu gadael yn wag os nad ydynt yn berthnasol.

Gellir ychwanegu'r sgôr NIHSS ar ôl 24 awr ar ôl yr holl feysydd eraill, yn yr un modd ag uchod.

Bydd y data clinigol a nodir yma yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau achos PDF a thaenlenni CSV/XLSX a allforiwyd.

9.6 Profion clinigol

Yn ddiofyn, mae meini prawf ar gyfer treialon DAWN, DEFUSE-3, ESCAPE, EXTEND a chanllawiau ESO ar gyfer ffenestr amser hwyr ar gael i weinyddwyr system i'w galluogi.

Y sganiau sylfaen dethol yn unig ar gyfer y claf a ddefnyddir i bennu cymhwysedd ar gyfer y treialon wedi'u ffurfweddu.

Pennir cymhwyster ar gyfer pob maen prawf gan ganlyniadau delweddu awtomatig ar gyfer pob sgan a data clinigol os y'u darperir. Ar gyfer asesiad craidd darlifo, defnyddir cyfaint y map craidd.

26/50

Patient ID: EX127
Name: Example 127

Case date: 2018-12-27
Case ID: 3

?

Report
Messaging
Clinical data
Trials Tracker
e-ASPECTS
e-CTA
e-CTP

All trials

Overall Clinical data CT CTA CTP DWI DSC

!
!
✓
✓
!

DAWN (Group A)

Details

!
✓
✓
✓
!

DAWN (Group B)

Details

✓
✓
✓
✓
✓

DAWN (Group C)

Details

DAWN (Group A) !

- ✓ NIHSS >= 10
NIHSS: 21
- ✓ Premorbid mRS <= 1
Premorbid mRS: 1
- ! Age >= 80
Age: 37
- ✓ 6-24 hours from last known well
 - CTP
2018-12-27 09:09:36
7 hours, 59 minutes ✓
 - CTA
2018-12-27 09:09:07
7 hours, 59 minutes ✓
 - CT
2018-12-27 09:04:55
7 hours, 54 minutes ✓
- ✓ ICA/M1 occlusion
CTA
2018-12-27 09:09:07
Occlusion: proximal ✓
- ! CTP/MRI core < 21 ml
CTP
2018-12-27 09:09:36
CTP core: 34 ml !
- ✓ Limited MCA territory involved on NCCT
CT
2018-12-27 09:04:55
Acute hypodensity: 27 ml ✓


DAWN (Group B) !

- ✓ NIHSS >= 10
NIHSS: 21
- ✓ Premorbid mRS <= 1
Premorbid mRS: 1
- ✓ Age 18-79
Age: 37
- ✓ 6-24 hours from last known well
 - CTP
2018-12-27 09:09:36
7 hours, 59 minutes ✓
 - CTA
2018-12-27 09:09:07
7 hours, 59 minutes ✓
 - CT
2018-12-27 09:04:55
7 hours, 54 minutes ✓
- ✓ ICA/M1 occlusion
CTA
2018-12-27 09:09:07
Occlusion: proximal ✓
- ! CTP/MRI core < 31 ml
CTP
2018-12-27 09:09:36
CTP core: 34 ml !
- ✓ Limited MCA territory involved on NCCT
CT
2018-12-27 09:04:55
Acute hypodensity: 27 ml ✓

DAWN (Group C) ✓

- ✓ NIHSS >= 20
NIHSS: 21
- ✓ Premorbid mRS <= 1
Premorbid mRS: 1
- ✓ Age 18-79
Age: 37
- ✓ 6-24 hours from last known well
 - CTP
2018-12-27 09:09:36
7 hours, 59 minutes ✓
 - CTA
2018-12-27 09:09:07
7 hours, 59 minutes ✓
 - CT
2018-12-27 09:04:55
7 hours, 54 minutes ✓
- ✓ ICA/M1 occlusion
CTA
2018-12-27 09:09:07
Occlusion: proximal ✓
- ✓ CTP/MRI core 31-51 ml
CTP
2018-12-27 09:09:36
CTP core: 34 ml ✓
- ✓ Limited MCA territory involved on NCCT
CT
2018-12-27 09:04:55
Acute hypodensity: 27 ml ✓

9.7 e-ASPECTS Arddangos



Manylion y sgan

Lleolir amser y sgan ar gornel isaf ochr chwith y sgan. Lleolir manylion ychwanegol sgan yn y botwm Gwybodaeth ar y bar offer gwaelod, ac yn y tab Adroddiad. Codir rhai manylion o ffynhonnell y tagiau cyfres DICOM (e.e. disgrifiad o'r astudiaeth) tra bod eraill yn deillio o'r feddalwedd ei hun (e.e. fersiwn algorithm).

Canlyniadau Manwl

Mae sgôr ASPECTS a gwybodaeth gysylltiedig i'w gweld ar frig y dudalen. Gellir sgrolio drwy'r wybodaeth ac mae'n cynnwys y canlynol.


Rhybuddion

Os yw'r adran hon yn weladwy ar ochr chwith y dudalen, ceir rhybuddion gan e-ASPECTS a allai effeithio ar gywirdeb y sgôr.

ASPECTS

Mae'r adran hon yn dangos sgôr ASPECTS a gyfrifwyd gan e-ASPECTS a rhestr o ardaloedd sydd wedi'u sgorio fel rhai sy'n cynnwys hypoddwysedd aciwt ac sydd felly wedi gostwng sgôr ASPECTS. Cliciwch ar enw ardal i'w gweld wedi'i hamlygu. Noder y gall gwahanol ardaloedd fod yn weladwy ar ddarnau gwahanol o'r sgan CT.

Cyfeintiau - Gorddwysedd



Bydd Brainomix 360 e-ASPECTS yn ceisio canfod gor-ddwyseddau annormal o fewn sgan CT heb gyferbynnedd. Mae gor-ddwyseddau annormal yn cyfeirio at ranbarthau o werthoedd HU uchel yn yr ymennydd, o'i gymharu â'r hyn a ddisgwylir fel arfer ar gyfer sgan CT ymennydd iach. Achosion cyffredin gor-ddwyseddau o'r fath mewn clefion yr amheuir eu bod wedi cael strôc yw gwaedu aciwt, gan fod gwaed ffres fel arfer yn fwy gor-ddwys na mater llwyd neu wyn, neu ollngiad cyferbyniad, er na ddylid gweld hyn mewn sgan CT heb gyferbynnedd os na weinyddwyd asiant cyferbyniad yn ddiweddar.

Os canfyddir ardal orddwys o fewn y sgan CT, bydd yr ardal yn cael ei segmentu a'i harddangos fel troshaen, a bydd cyfaint yr ardal segmentiedig yn cael ei adrodd (mewn mililitrau). Er dylai'r mesuriad cyfaint hwn gyfateb yn gywir i'r rhanbarth segmentiedig, mae'n rhaid i'r defnyddiwr wirio'n weledol bod yr ardal segmentiedig yn gywir mewn perthynas â'r gorddwyseddau sylfaenol yn y ddelwedd.


Noder bod y nodwedd hon ar wahân i nodwedd gorddwysedd pibell, a fydd yn ceisio nodi achludiadau neu galcheiddiadau mewn pibelli.

Pan ganfyddir cyfaint gorddwys mawr, bydd cyfaint y gorddwysedd, sgôr ASPECTS, a chanlyniadau pibelli gorddwys yn cael eu hatal. Os bydd gweinyddwr wedi galluogi golygu â llaw, gellir defnyddio'r nodwedd hon i adfer y canlyniadau a ataliwyd.

Cyfeintiau - Hypoddwysedd aciwt / nad yw'n aciwt

Cyfaint yr arwyddion hypodense mewn ml, fel y'i cyfrifwyd gan Brainomix 360 e-ASPECTS. Dyma fesur o'r 'map gwres'. Bydd cywirdeb y cyfrifiad cyfaint yn dibynnu ar ansawdd y 'map gwres', y dylid ei wirio â llaw.

Pibelli Gorddwys



Mae e-ASPECTS yn ceisio dod o hyd i orddwysedd pibell leol ar sganiau CT heb gyferbynnedd, sy'n nodweddiadol yn arwydd o achludiadau (clotiau) neu galcheiddiadau. Ystyrir priodweddau delwedd megis siâp gorddwysedd a gwerthoedd HU o fewn pibell orddwys wrth ddosbarthu'r nodweddion hyn, gyda chalchiadau fel arfer â gwerthoedd HU uwch a mwy diffiniedig o'u cymharu â cheuladau. Bydd yr ardal orddwys yn cael ei segmentu a'i hamlygu mewn allbwn canlyniadau delwedd.

Os canfyddir un neu fwy o achosion, bydd hyd yr achludiad yn cael ei nodi ar sail mesuriad o echelin hiraf yr ardal segmentiedig sy'n gysylltiedig â'r achludiad. Mewn achos lle canfyddir achludiadau ar ddau hemisffer sgan CT yr ymennydd, rhoddir y mesuriadau hyd fesul hemisffer.

Noder efallai na chanfyddir rhai gorddwyseddau gan y feddalwedd, ac efallai y bydd positifau ffug hefyd yn cael eu nodi. Mae hefyd yn bosibl yr amlygir y nodweddion hyn y tu allan i bibelli, ac os felly ni fyddai'r gorddwysedd o ganlyniad i achludiad, hyd yn oed os bydd yn cael ei ganfod yn anghywir felly.

Sgan Heb Sylwadau

Mae'r wedd Sgan Heb Sylwadau bob amser yn dangos y sgan CT heb droshaenau. Defnyddiwch y wedd hon wrth asesu sgan â llaw.

Mae gwerth HU y picsele o dan bwyntydd y llygodyn yn cael ei ddangos wrth ei ymyl ar y sgan heb sylwadau. Noder bod sganiau CT yn cynnwys sŵn, cyfartaledd cyfaint, ac arteffactau eraill, felly nid yw mesuriadau unigol o reidrwydd yn adlewyrchu priodweddau'r meinwe sylfaenol.

Yn y ddewislen **Allgludo** mae botymau i'w lawrlwytho naill ai ffynhonnell wreiddiol y data DICOM, neu'r sgan heb sylwadau mewn fformat DICOM neu PNG.

Canlyniadau

Mae'r gwedd Canlyniadau yn dangos delwedd y CT ar ôl prosesu a dadansoddi gyda e-ASPECTS. Gwneir sylwadau ar ddarnau i ddangos segmentiad ardaloedd ASPECTS ac arwyddion o hypoddwysedd neu orddwysedd a nodwyd.

Yn y ddewislen **Allforio** mae botymau i:

- Lawrlwytho canlyniadau ac, os ydynt ar gael, delweddau MIP ar ffurf PNG neu DICOM.
- Trosglwyddo'r canlyniadau i PACS dros gysylltiad rhwydwaith DICOM.
- Anfon y canlyniadau i system bell gan ddefnyddio cydamseru rhwng cyfoedion neu gysoni cwmwl.
- E-bostio'r canlyniadau i gyfeiriadau e-bost penodol os ydynt wedi'u ffurfweddu.

Yn y ddewislen **Gweld** mae botymau i:

- Newid adluniad y sgan. Dewiswch o'r opsiynau canlynol:
 - **Adluniad Safonol:** Adluniad syml o'r cyfaint CT gan ddefnyddio gwerthoedd cyfartalog o'r darnau sgan gwreiddiol.
 - **Llai o Sŵn:** Fersiwn wedi'i hidlo o'r sgan gyda llai o sŵn (graen).
 - **Amcaniad Uchafswm Dwysedd:** Mae'r dull adlunio hwn yn gwneud y thrombws yn haws ei weld. Noder na fydd MIP ar gael os oes gan y sgan gwreiddiol darnau sy'n rhy drwchus.
- Newidiwch y cynllun, os yw ar gael
- Ailosodwch y chwyddo, i ffitio'r sgan cyfan i'r gwyliwr.
- Gweld y sgan ar gymhareb 1:1.

Sgrolio trwy ddarnau

I sgrolio drwy ddarnau:

- Ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, gallwch ddefnyddio olwyn eich llygoden neu ddal botwm chwith y llygoden i lawr wrth symud y llygoden i fyny ac i lawr ar y sgan
- Ar ddyfeisiau cyffwrdd, gallwch symud un bys i fyny ac i lawr ar y sgan (neu ddefnyddio dau fys os yw'r sgan wedi'i chwyddo).
- Gallwch symud y llithrydd i fyny ac i lawr.
- Gallwch ddefnyddio'r botymau  a  i newid pa ddarn sy'n cael ei arddangos.

Ffenestri

Mesurir picseli mewn sgan CT mewn Unedau Hounsfield (HU), y mae'n rhaid eu trosi i lefelau llwyd i'w harddangos. Mae'r rheolyddion lefel a lled ffenestri yn y ddewislen **Ffenestri** yn caniatáu i chi addasu'r ystod o werthoedd HU a arddangosir.

Darperir tair ffenestr rhagosodedig i'ch helpu i asesu'r sgan â llaw:

- **Ymennydd:** Yn darparu gwedd gyffredinol dda o feinwe'r ymennydd.
- **Cyferbynnedd uchel:** Yn darparu gwedd gyferbynnedd uchel i wneud newidiadau hypoddwysedd cynnar yn haws i'w gweld.
- **CTA:** Yn darparu cyferbynnedd gwell i wneud pibelli wedi'u mwyhau yn haws eu gweld.
- **Ysgyfaint:** Yn dda ar gyfer edrych ar ddelweddau o'r ysgyfaint.
- **Mediastinwm:** Yn dda ar gyfer edrych ar feinwe meddal ar CT y frest.
- **CTPA:** Yn dda ar gyfer edrych ar angiogramau'r ysgyfaint.
- **Asgwrn:** Yn dda ar gyfer edrych ar strwythurau asgwrn.

Gallwch ychwanegu hyd at dair ffenestr rhagosodedig bersonol at eich defnydd eich hun, a fydd ar gael yn yr un rhestr rhagosodedig.

Gellir addasu lled a lefel ffenestr hefyd trwy wasgu a dal botwm canol y llygoden dros y Gwyliwr, wrth symud y llygoden i fyny/i lawr (i newid lefel) neu i'r chwith/dde (i newid lled).

Troshaenau


Gellir toglo troshaenau unigol a ddangosir ar y wedd Canlyniadau ymlaen ac i ffwrdd yma. Dim ond os yw ar gael ar gyfer y sgan cyfredol y caiff y droshaen ei rhestru.

- **Ardaloedd ASPECTS:** Dangos segmentiad ardaloedd ASPECTS.
- **Ardaloedd yr effeithir arnynt:** Amlygu'r ardaloedd ASPECTS sydd wedi'u sgorio fel rhai sy'n cynnwys newidiadau dwysedd is aciwt.


- **Dwysedd is aciwt:** Amlygu ardaloedd sydd â newidiadau dwysedd is aciwt.
- **Dwysedd is sydd ddim yn aciwt:** Amlygu ardaloedd sydd â newidiadau dwysedd is hŷn sydd wedi'u heithrio gan yr algorithm e-ASPECTS.
- **Dwysedd uchel** Amlygu ardaloedd sydd ag arwyddion dwysedd uchel annormal.
- **Pibell dwysedd uchel:** Amlygu pibellau dwysedd uchel a ganfuwyd fel achludiadau.
- **Calcheiddiad:** Amlygu pibellau dwysedd uchel a ganfuwyd fel calcheiddiadau.
- **Ardaloedd pc-ASPECTS:** Dangos segmentiad ardaloedd pc-ASPECTS.
- **Plân saethol canol:** Toglo'r llinell dangosydd plan saethol canol.
- **Anodiadau testun:** Toglo'r dangosyddion ochr a throshaenau testun gwybodaeth eraill.

9.8 Amlygu Rhyngweithiol e-ASPECTS

Mae symud pwyntydd y llygoden dros y sgan sydd wedi'i brosesu yn amlygu ardaloedd. Mae symud pwyntydd y llygoden dros y sgan gwreiddiol yn dangos y gwerth HU yn y lleoliad hwnnw.



9.9 Amcaniad Uchafswm Dwysedd (MIP)



Mae amcaniad uchafswm dwysedd yn cyfuno darnau lluosog o'r sgan gwreiddiol mewn modd sy'n cynyddu gwelededd y thrombws, a adnabyddir hefyd fel arwydd dot yr MCA. Dangosir enghraifft yn y ciplun, lle mae'r arwydd dot yn yr agen Sylfaidd chwith wedi'i gwneud yn gwbl weladwy.


Os prosesir sgan â thrwch darn o lai na hanner y trwch dangos a ffurfweddir, cynhyrchir delwedd MIP. Noder bod y trwch dangos a ffurfweddir yn nodweddiadol rhwng 4.5-6mm. Pan fo delwedd MIP ar gael, dangosir y blwch dewis yn y ddewislen Gwedd. Bydd dewis "Amcaniad uchafswm dwysedd" yn

cymryd lle'r darnau sgan arferol gyda darnau MIP.

9.10 Cymorth

Mae gan y gwyliwr achos lawer o swyddogaethau i'w helpu i asesu'r sganiau. Gallwch gael mynediad at y cymorth unrhyw bryd drwy glicio ar y botwm **Help**. Bydd pob nodwedd yn cael ei hanodi gyda botwm y gallwch ei glicio i weld y cymorth ychwanegol. Mae'r cymorth ychwanegol yn eich galluogi i ymglyfarwyddo â'r rheolyddion a'r nodweddion amrywiol sydd ar gael i chi.

Argymhellir eich bod yn edrych ar y cymorth ar ôl prif ddiweddariadau i'r meddalwedd Brainomix 360 i ymglyfarwyddo â nodweddion newydd wrth iddynt gael eu hychwanegu.




9.11 Mwyhau



Gellir mwyhau unrhyw un o'r ffenestri i'w gweld yn fwy, un ar y tro. Mae'r dewislenni perthnasol ar gael o dan y ffenestr sydd wedi'i uchafu. Pwyswch X i ddychwelyd i'r wedd arferol.

9.12 Canlyniadau â llaw

Os galluogir y gosodiad gan eich gweinyddwr, gallwch olygu'r canlyniad awtomatig a chadw eich canlyniad â llaw eich hun ar Brainomix 360. Nid yw'r nodwedd hon ar gael wrth edrych ar achosion ar Brainomix 360 Cloud.



Gallwch olygu'r canlyniad awtomatig trwy gadw eich sgôr eich hun. Cliciwch y botwm 'Golygu canlyniad' i agor y ffenestr olygu.

Cliciwch ar yr ardaloedd ar y sgan gyda newidiadau hypoddwysedd aciwt i gyfrifo'ch sgôr ASPECTS â llaw.

Wrth gadw'ch canlyniad, gallwch ddewis ei gyhoeddi i unrhyw allbynnau sydd wedi'u ffurfweddu, neu ei gadw heb ei gyhoeddi.

9.13 Rhannu achosion

Os yw eich gweinyddwr wedi'i alluogi, gallwch rannu achos wedi'i ffug-enwi gyda rhywun y tu mewn neu'r tu allan i'ch sefydliad gyda dolen rhannu.

I greu dolen rhannu:

- Cliciwch ar y botwm 'Rhannu achos' yn y gwyliwr achosion. Sylwch nad yw'r botwm hwn yn cael ei arddangos os nad yw rhannu wedi'i alluogi.
- Pan fydd y ddolen yn cael ei harddangos, cliciwch ar 'Copïo URL i'r clipfwrdd'.
- Gludwch y ddolen i mewn i ap e-bost neu negeseuon.


Nodiadau Pwysig ar Ddolenni Rhannu

- Bydd agor y ddolen a rennir yn rhoi mynediad i bob sgan mewn un achos yn unig.
- Bydd y ddolen wedi'i ffug-enwi felly ni fydd y derbynnydd yn gallu gweld unrhyw wybodaeth personol adnabyddadwy yn y gwyliwr achosion.
- Rhaid i'r derbynnydd gael mynediad rhwydwaith i'r gweinydd os yw ar fewnwyd.
- Gall unrhyw un sydd â'r ddolen gael mynediad i'r achos wedi'i ffug-enwi nes bod y ddolen yn dod i ben. Mae'r amser dod i ben yn ffurfwedddadwy gan eich gweinyddwr.

10 Arddangoswr Symudol

10.1 Rhestr yr Achosion

Os byddwch yn cyrchu Brainomix 360 neu Brainomix 360 Cloud gan ddefnyddio'ch ffôn, gan ddefnyddio'ch ffôn, gallwch weld rhestr o'r holl achosion. Tapiwch achos i'w agor. Bydd llithro eich bys i lawr yn adnewyddu'r rhestr achosion.



10.2 Adroddiad


Gallwch weld yr adroddiad achos llawn ar gyfer pob dull delweddu ac agor pob sgan yn unigol i sgrolio drwy'r darnau a gweld yr holl wybodaeth am y sgan a'r canlyniadau o'r adroddiad.


Patient ID **EX127**
Name **Example 127**
Case date **2018-12-27 09:01:27**
Case ID **1**

Accession number **EX127_DEMO**
DOB **-**
Age **37**
Gender **Unknown**


Not flagged by clinician for endovascular therapy


CT
Scanned: **2018-12-27 09:04:55**

Ganglionic level


Supraganglionic level


ASPECTS
Score: **7**
☒ Right side: **Insula, Lentiform, M1**

10.3 Gwedd Sgan

Yn y gwylwr gallwch sgorio drwy holl ddarnau'r sgan wrth lusgo un bys i fyny ac i lawr ar y sgan (neu ddefnyddio dau fys os yw'r sgan wedi'i chwyddo) neu wrth ddefnyddio'r bar ar yr ochr.

Mae'r metadata ar gyfer y sgan hwn, a phob canlyniad o e-ASPECTS ar gael o fewn y botymau ar waelod y Gwylwr.

Gallwch newid y ffenestru gan ddefnyddio'r ffenestri rhagosodedig a thoglo'r troshaenau ymlaen neu i ffwrdd.

Gallwch hefyd wasgu a dal y sgan i doglo troshaenau ymlaen neu i ffwrdd.

Gan ddefnyddio pinsio-i-chwyddo, gallwch chwyddo'r sgan i'w weld mewn mwy o fanylder a gallwch ei symud o gwmpas wrth ei lusgo.


Tapio'r botwm gweithredol ar waelod y sgrin i gau'r rheolydd hwnnw ac edrych ar y sgan mewn modd sgrin lawn.



10.4 Dewislen

Tapiwch y botwm Brainomix yn y gornel chwith isaf i agor y ddewislen Brainomix. Gallwch chi weld yr holl sganiau yn yr achos hwn, a llywio tuag at unrhyw wedd sydd ar gael drwy dapio'r mân-lun.

Neu, gallwch ddefnyddio'r drôr moddolrwydd ar y gwaelod i fynd yn uniongyrchol at y wedd canlyniadau ar gyfer sgan. Er mwyn ehangu'r hambwrdd, tapiwch y botwm ar y gwaelod ar y dde. Er mwyn cau'r hambwrdd, tapiwch y botwm eto.



10.5 Rhannu achosion

Os yw eich gweinyddwr wedi'i alluogi, gallwch rannu achos wedi'i ffug-enwi gyda rhywun y tu mewn neu'r tu allan i'ch sefydliad gyda dolen rannu.

I greu dolen rhannu:

- Cliciwch ar y botwm  yn y gwyliwr achosion. Noder nad yw'r botwm hwn yn cael ei arddangos os nad yw rhannu wedi'i alluogi.
- Mae'r ddolen yn cael ei harddangos. Ar ddyfeisiau Android neu iOS, cliciwch ar 'Rhannu URL' i rannu'n uniongyrchol gydag ap arall.
- Fel arall, cliciwch ar 'Copïo URL i'r clipfwrdd' yna gludwch y ddolen i mewn i ap e-bost neu negeseuon

Nodiadau Pwysig ar Rannu Dolenni

- Bydd agor y ddolen a rennir yn rhoi mynediad i bob sgan mewn un achos yn unig.
- Bydd y ddolen yn cael ei ffug-enwi felly ni fydd y derbynnydd yn gallu gweld unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy yn y gwyliwr achosion.
- Rhaid i'r derbynnydd gael mynediad rhwydwaith i'r gweinydd os yw ar fewnrwyd.

- Gall unrhyw un sydd â'r ddolen gael mynediad at yr achos wedi'i ffug-enwi nes bod y ddolen yn dod i ben. Mae'r amser dod i ben yn ffurfweddadwy gan eich gweinyddwr.

11 Allbynnau Canlyniad

11.1 DICOM

Os cafodd ei ffurfweddu ar eich safle, bydd canlyniad cyfres DICOM yn cael ei drosglwyddo i PACS dros gysylltiad rhwydwaith DICOM unwaith y bydd y prosesu wedi dod i ben.

11.2 Hysbysiadau E-bost

Os cawsant eu ffurfweddu ar eich safle, bydd hysbysiadau e-bost sy'n cynnwys canlyniadau yn cael eu hanfon i gyfeiriadau e-bost sydd wedi'u ffurfweddu unwaith y bydd y prosesu wedi dod i ben.

11.3 Adroddiadau achos

Os cawsant eu ffurfweddu ar eich safle, bydd PDFs adroddiadau achos sy'n cynnwys trosolwg o'r holl ddulliau a chanlyniadau delweddu ar gyfer claf yn cael eu hanfon i gyfeiriadau e-bost sydd wedi'u ffurfweddu a/neu i PACS dros gysylltiad rhwydwaith DICOM.

11.4 Cysoni Cymheiriad-i-Gymheiriad

Os cawsant eu ffurfweddu ar eich safle, bydd canlyniadau llawn yn cael eu cysoni â gosodiadau o bell Brainomix 360 gyda ffugenw dewisol. Yn y safle o bell, gellir gweld y canlyniadau fel pe bai'r sgan wedi'i brosesu yno.

11.5 Cysoni'r Cwmwl

Os cawsant eu ffurfweddu ar eich safle, bydd canlyniadau llawn yn cael eu cysoni i'r gwasanaeth Brainomix 360 Cloudgyda ffugenw dewisol. Gellir gweld y canlyniadau ar Brainomix 360 Cloud fel pe bai'r sgan wedi'i brosesu yno.

11.6 Hysbysiadau Ap Symudol

Os bydd cysoni â Brainomix 360 Cloud wedi'i alluogi, gellir ffurfweddu hysbysiadau gwthio i hysbysu defnyddwyr yr ap Brainomix 360 Mobile bod canlyniad ar gael.

12 Yn Ianlwytho ac yn Prosesu

Mae'r adran hon yn berthnasol i Brainomix 360 yn unig. Nid yw'n bosibl ianlwytho na phrosesu sganiau'n uniongyrchol ar Brainomix 360 Cloud.

12.1 Yn Prosesu Sganiau

Llifoedd gwaith

Gellir ffurfweddu Brainomix 360 i ddarparu llifoedd gwaith gwahanol i'w defnyddio yn y llwybr clinigol aciwt neu ar gyfer astudiaethau clinigol. Gellir ffurfweddu pob llif gwaith i anfon hysbysiadau e-bost neu ganlyniadau i wahanol gyfeiriadau ac i wahanol ddyfeisiau DICOM targed.

Cyflenwir dwy set ddiofyn o lifoedd gwaith, 'Acíwt' ac 'Astudio'. Bwriad y llifoedd gwaith aciwt yw prosesu nifer fach o sganiau â blaenoriaeth uchel, tra bod llifoedd gwaith yr astudio yn addas ar gyfer prosesu nifer fawr o sganiau â blaenoriaeth is. Os prosesir sgan gan lif gwaith astudio pan derbynnir sgan aciwt, bydd Brainomix 360 yn ei oedi ac yn prosesu'r sgan aciwt cyn parhau.

I gael cymorth i ffurfweddu eich llifoedd gwaith ac integreiddio â systemau allanol (PACS, sganwyr CT, e-bost ayyb), cysylltwch â'ch dosbarthwr lleol neu gymorth Brainomix.

Trosglwyddo DICOM â Llaw

1. Sicrhewch fod y ddyfais DICOM ffynhonnell (e.e. PACS neu sganiwr CT) a'r cymhwysiad rheoli (e.e. Gwyliwr PACS) wedi'u ffurfweddu gyda chyfeiriad gweinydd Brainomix 360 a Theitl Endid y Rhaglen ar gyfer y ciw sgan priodol sy'n dod i mewn Brainomix 360 sy'n gysylltiedig â'r llifoedd gwaith a ddymunir (gweler uchod). Dylai gweinyddwr eich system allu eich helpu i ffurfweddu'r rhain.
2. Defnyddiwch y cymhwysiad rheoli DICOM i drosglwyddo cyfres sgan i'r gweinydd Brainomix 360. Cyfeiriwch at gyfarwyddiadau'r rhaglen am ragor o wybodaeth.
3. Bydd gweinydd Brainomix 360 yn dechrau prosesu'r gyfres yn awtomatig.
4. I fonitro prosesu yn eich porwr gwe:
 1. Ewch i gyfeiriad gweinydd Brainomix 360 yn eich porwr rhyngwyd
 2. Gofynnir i chi fewngofnodi os nad ydych wedi defnyddio'r rhaglen yn ddiweddar o'ch porwr gwe presennol. Mewngofnodwch fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol.
 3. Dewiswch **Rhestr Achos** o'r bar dewislen ar frig y dudalen.
 4. Dylai'r sgan newydd ymddangos yn y rhestr achosion. Os nad yw'n gwneud, edrychwch ar log DICOM i wirio am wallau.
5. Os cawsant eu ffurfweddu, anfonir e-byst canlyniadau ac anfonir canlyniadau DICOM i PACS yn awtomatig pan fydd y prosesu wedi'i gwblhau. Defnyddiwch eich cleient e-bost arferol neu Gwyliwr PACS i weld y canlyniadau hyn.
6. Fel arall, cliciwch ar yr achos yn y rhestr achosion i weld y canlyniadau yn eich porwr gwe.

Trosglwyddo DICOM Awtomatig


Mae'n bosibl y bydd rhaglen allanol yn cael ei ffurfweddu i drosglwyddo cyfres sgan yn awtomatig i'r Brainomix 360 gweinydd.

Os cawsant eu ffurfweddu, anfonir e-byst canlyniadau ac anfonir canlyniadau DICOM i PACS yn awtomatig pan fydd y prosesu wedi'i gwblhau. Defnyddiwch eich cleient e-bost arferol neu Gwylwr PACS i weld y canlyniadau hyn. Yn y ffurfweddiad hwn nid oes angen i chi ddefnyddio'r Brainomix 360 rhyngwyneb gwe o gwbl.

Fel arall, mewngofnodwch a bydd yr achosion yn ymddangos yn y rhestr achosion cyn gynted ag y byddant mewn ciw i'w prosesu. Gellir gweld y canlyniadau trwy glicio ar achos. Gellir monitro gweithgarwch rhwydwaith DICOM trwy edrych ar log y DICOM.

Lanlwytho â Llaw trwy Ryngwyneb Gwe

1. Mewngofnodwch i Brainomix 360
2. Agorwch y ddewislen gan ddefnyddio'r eicon dewislen ar frig y dudalen.
3. Dewiswch **Lanlwytho Sganiau** o'r ddewislen.



4. Dewiswch y ciw sganio priodol sy'n dod i mewn o'r gwymplen o dan yr ardal lanlwytho. Gosodir y gosodiad hwn i ddefnyddio'r ciw sgan astudio sy'n dod i mewn yn ddiofyn.
5. Cliciwch **Lanlwytho** i ddewis ffeiliau delwedd DICOM neu ffeiliau sip cywasgedig sy'n cynnwys delweddau DICOM.

Awgrym: Gallwch lusgo a gollwng ffeiliau yn uniongyrchol i'r ardal lanlwytho os yw'r porwr yn cefnogi llusgo a gollwng.

Noder: Os byddwch yn dewis gormod o ffeiliau bydd y porwr yn eu gwrthod. Os bydd hyn yn digwydd, dylech gywasgu'r delweddau DICOM i mewn i un ffeil sip a lanlwytho hwnnw'n lle hynny.

6. Bydd eich ffeiliau yn cael eu lanlwytho a'u mynegeo. Os bydd nifer fawr iawn o ffeiliau gall hyn gymryd sawl munud.
7. Dangosir rhagolwg o'r ffeiliau rydych wedi'u lanlwytho ar ôl iddynt gael eu mynegeo. Bydd cyfres na ellir ei phrosesu yn cael ei rhestru ar wahân fel cyfres annilys, a bydd unrhyw ffeiliau nad ydynt yn ddelweddau DICOM yn cael eu rhestru yn yr adran ffeiliau a anwybyddwyd.

Valid series: 3

☒	Patient ID	Name	DOB	Series date ▼	Series type	Workflow
☒	EX127	Example 127	-	2018-12-27 09:09:36	CT	Study CTP
☒	EX127	Example 127	-	2018-12-27 09:09:07	CT	Study CTA
☒	EX127	Example 127	-	2018-12-27 09:04:55	CT	Study CT

Age: 37

Gender: Unknown

Accession number: EX127_DEMO

Acquisition time: 2018-12-27 09:03:34

Series description: CT

Study description: Acute Stroke CT Protocol

Slice thickness: 1.2 mm


Size: 225.0mm x 225.0mm x 145.3mm

Number of volumes: 1

Institution name: Brainomix Ltd

Scanner manufacturer: SIEMENS

Scanner model: SOMATOM Definition AS



Process
Cancel

8. Cliciwch ar yr eicon  i ehangu manylion y claf a'r sgan ac i weld cryno-lun o'r sgan.
9. Yn ddiofyn, mae pob sgan y gellir eu cyfeirio i lif gwaith wedi'u marcio i gael eu prosesu. Os oes sganiau nad ydych yn dymuno iddynt gael eu prosesu gan Brainomix 360, yna dad-ddewiswch

- nhw trwy dad-glicio eu blychau ticio. Gallwch hefyd ddiystyru'r dewis llif gwaith trwy ddewis o'r opsiynau a ddangosir yn y golofn llif gwaith.
- 10. Pan fyddwch yn hapus bod y ffeiliau rydych yn dymuno eu prosesu yn gywir, cliciwch ar y botwm **Prosesu**. Os nad ydych yn dymuno parhau, cliciwch **Canslo**.
 - 11. Unwaith bydd y prosesu wedi dechrau, bydd y dudalen rhestr achosion yn cael ei harddangos.
 - 12. Pan fydd y prosesu wedi'i gwblhau, bydd e-byst canlyniadau a chanlyniadau DICOM yn cael eu hanfon yn awtomatig fel y'u ffurweddwyd ar gyfer y llif gwaith.
 - 13. Cliciwch ar y sgan yn y rhestr sgan i weld y canlyniadau yn eich porwr gwe.

12.2 Y log DICOM

Cliciwch ar y ddolen 'log DICOM' i weld log o gyfresi DICOM y gwnaethpwyd cais amdanynt, a dderbyniwyd ac a anfonwyd gan y gweinydd Brainomix 360.

DICOM Log

Search

Filter by event type

☒ Select all

☒ Series requested

☒ Series received

☒ Series queued for processing

☒ Unsupported series received

☒ Unroutable series received

☒ Study received containing no supported series

☒ Study received containing no supported, routable series

☒ Transfer failed

Filter by dates

2021-12-10

-

2021-12-20

Time	Patient ID	Name	Accession number	Case ID	Scan ID
2021-12-20 14:31:16 GMT					
Description	A series was routed				
Details	Filtering series 34: - Rule 'Study Olea Sphere' => Detected series type does not match. - Rule 'Study CTA' => Number of volumes out of range. - Rule 'Study CT' => Number of volumes out of range. - Rule 'Study CT Viewer' => OK. Routed to the Study CT Viewer workflow.				

13 Gweinyddiaeth

Mae gan ddefnyddwyr gweinyddwyr nodweddion ychwanegol ar gael iddynt ar gyfer rheoli defnyddwyr, dileu sganiau a ffurfweddu integreiddiad y system Brainomix 360 i'r llif gwaith clinigol. Yn gyffredinol, ni fydd angen newid y gosodiadau hyn a gall gosodiadau anghywir arwain at golli data, gweithredu anghywir neu beryglu diogelwch. Os bydd angen cymorth arnoch i integreiddio'ch system Brainomix 360 i'ch llif gwaith clinigol, cysylltwch â'ch dosbarthwr lleol neu gymorth Brainomix.

14 Datrys Problemau

Os bydd unrhyw broblemau'n codi yn ystod y defnydd neu os cyflwynir unrhyw negeseuon gwall, cysylltwch â'ch gweinyddwr lleol neu gymorth Brainomix yn un o'r opsiynau cyswllt a nodir yn yr adran Gwybodaeth Reoleiddio.

15 Cynnal a Chadw a Gwelliannau Gwasanaeth

Os bydd gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, bydd Brainomix yn hysbysu'r defnyddwyr yr effeithir arnynt ymlaen llaw bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud a pha lefel o ymyrraeth i'r gwasanaeth a ddisgwylir. Efallai y bydd mynediad i ddefnyddwyr yn cael ei wrthod yn ystod y cyfnod cynnal a chadw. Os yw'r ap Brainomix 360 Mobile wedi'i osod ar ddyfais symudol, gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddarau i'r fersiwn ddiweddaraf pan ofynnir amdano neu pan gaiff ei ddarparu ar Google Play neu'r Apple App Store.

16 Adrodd am Ddigwyddiadau


Cysylltwch â ni drwy support@brainomix.com (<mailto:support@brainomix.com>) os ydych chi wedi darganfod problem bosibl gydag unrhyw un o'n gwasanaethau pecyn Brainomix 360. Noder y bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei llywodraethu gan ein Polisi Preifatrwydd (<https://www.brainomix.com/privacy-eu/#:~:text=For%20users%20of%20Brainomix%20products,in%20order%20to%20provide%20support>). Os bydd digwyddiad difrifol wedi digwydd mewn perthynas ag unrhyw un o'n cynhyrchion, rhwch wybod amdano hefyd i'r awdurdod cymwys lleol yn eich gwlad:

- Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (<https://www.ema.europa.eu/en/partners-networks/eu-partners/eu-member-states/national-competent-authorities-human>)
- Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon (<https://www.gov.uk/report-problem-medicine-medical-device>)
- Y Swistir (<https://www.swissmedic.ch/swissmedic/en/home/medical-devices/reporting-incidents--fscas/users---operators.html>)
- Twrci (<https://www.titck.gov.tr/>)

17 Dadgomisiynu

Os bydd y gwasanaeth yn cael ei derfynu a'i dynnu, bydd Brainomix yn cydlynu'r broses gyda'r rhanddeiliaid perthnasol yn eich sefydliad i sicrhau bod y system Brainomix 360 yn cael ei dileu'n llyfn ac yn gyflawn, gan gynnwys unrhyw asedau a data. Bydd effaith y tynnu yn cael ei hasesu i benderfynu a fydd yn arwain at newidiadau i'ch llif gwaith clinigol a/neu gyfluniad systemau eraill. Bydd unrhyw asedau sy'n eiddo i Brainomix yn cael eu hadennill a bydd integreiddiadau'n cael eu tynnu o'r system i sicrhau nad oes mwy o drosglwyddo data yn digwydd i'r/oddi'r ased(au) sydd i'w datgomisiynu. Am ragor o wybodaeth am y broses o ddadgomisiynu eich system Brainomix 360, cysylltwch â'ch dosbarthwr lleol neu gymorth Brainomix.

18 Symbolau

Symbol	Disgrifiad o'r symbol
	Yn dynodi enw a chyfeiriad gwneuthurwr y ddyfais feddygol.
	Yn dynodi'r dyddiad y cynhyrchwyd y ddyfais feddygol.
	Yn dynodi'r cludwr sy'n cynnwys gwybodaeth adnabod unigryw am y ddyfais.
	Yn dynodi'r cynrychiolydd awdurdodedig yn y Gymuned Ewropeaidd.
	Yn dynodi'r cynrychiolydd awdurdodedig yn y Swistir.
	Yn dynodi'r endid sy'n mewnforio'r ddyfais feddygol i'r lleoliad.
	Yn dynodi'r angen i'r defnyddiwr ymgynghori â'r cyfarwyddiadau defnyddio.
	Yn dynodi bod angen gofal wrth weithredu'r ddyfais neu'r rheolydd yn agos at y man lle mae'r symbol wedi'i osod, neu fod angen ymwybyddiaeth gweithredwr neu weithredu gweithredwr yn y sefyllfa bresennol er mwyn osgoi canlyniadau annymunol.
	Yn dynodi mai dyfais feddygol yw'r eitem.
	Yn dynodi bod y wybodaeth wreiddiol am y ddyfais feddygol wedi cael ei chyfieithu sy'n ategu neu'n disodli'r wybodaeth wreiddiol.
	Mae marc CE yn nodi bod cynnyrch yn cydymffurfio â rheoliadau cymwys yr Undeb Ewropeaidd.

19 Gofyn am Gopi Papur

Os oes angen copi caled printiedig arnoch o'r diwygiad hwn o lawlyfr defnyddiwr Brainomix 360 e-ASPECTS, ystyriwch argraffu'r dudalen we hon (cliciwch ar y dde + Argraffu neu lawrlwythwch y diwygiad diweddaraf o'n gwefan (<https://www.brainomix.com/docs/>)). Os nad yw'r opsiwn hwn ar gael i chi, cysylltwch â ni drwy support@brainomix.com (<mailto:support@brainomix.com>) gyda'ch cais a bydd copi printiedig yn cael ei anfon atoch o fewn 7 diwrnod calendr i dderbyn y cais. Darperir y gwasanaeth hwn yn ddi-dâl.